

## Hanes ac Ecoleg ar Gomin Pen-y-bont

Trawsgrifiad Sain: Cymraeg

Fe all mwynhau mynd am dro ar y Comin agor bydoedd newydd cyfan, os rhowch chi gyfle iddo. Rydym gymaint â'n bryd ar ein byd dynol fel ei bod yn hawdd anghofio mai un rhywogaeth ydym ni, o blith degau o filoedd sy'n byw ym Maesyfed. Mae llawer ohonyn nhw'n llai o lawer na ni, a'u bywydau'n syml bid siwr, ond dydi hynny ddim yn esgus dros eu hanwybyddu na'u niweidio nhw drwy anwybodaeth. Ymgais ydi'r ymson bach yma i agor eich llygaid ryw flewyn bach mwy nag arfer efallai...

Ar yr olwg gynta, gaech chi bardwn am feddwl mai rhyw lain o dir anial ydi'r Comin. Mwy na phardwn, a dweud y gwir... gan mai dyna ydi cyfran sylweddol ohono. Tir ydi comin y mae llawer yn ei ddefnyddio, ond ychydig yn gofalu amdano. Mae'n cynnig porfa, a llawer yn gwneud yn fawr ohoni, heb fawr o ofal na buddsoddi. Yn rhyfedd iawn, o ran bioamrywiaeth, yr union ddiffyg gofal hwnnw ydi'r union beth.

Os cerddwch chi ar draws y comin, be welwch chi fwy ydi glaswellt wedi'i bori'n gwta, ambell i ddraenen wen grebachlyd neu eithin yma a thraw, a thwmpathau morgrug—o leia mae Morgrugyn Melyn y Maes yn cael hwyl arni! Allech chi weld ambell i iar fach yr haf, megis Gweirlöyn Bach y Waun, ond anaml y cewch chi wenyn. Yn aml mae'r glaswellt braidd yn denau, a phridd moel, sych ar y cribau a lle mae llwybrau'n cris-croesi'r dirwedd. Nid tir iraidd mohono, yn aml yn arliwiau brown yn fwy na glesni; mae tiroedd comin yn amlwg eu lle yn yr union ffordd yna mewn lluniau o'r awyr. Ond y diffyg gofal hwnnw ydi'r rheswm. Mae ein porfeydd gwelltog gleision cyfarwydd a'n caeau wedi'u pori yn cael eu gwrteithio, eu trin â phethau lladd chwyn, eu puro dros ddegawdau fel bod cymaint o fwyd ag y bo modd i'r da byw. Y canlyniad ydi tyfiant trwchus, yn weiriau neilltuol mae'r ffermwyr yn eu ffafrio. Cyfunwch chi hynny â phori dwys a does gan natur fawr o obaith; ychydig iawn o amrywiaeth pryfed a blodau gwyllt sydd mewn porfa dan reolaeth felly. Chafodd y Comin mo'r driniaeth honno. Fe'i porwyd yn ddwys, do, a hynny nid er gwell... ond mae'r borfa ei hun yn arwach ac yn fwy naturiol. Oherwydd y pori, mae'r rhan fwyaf o'r planhigion yn gwta ac yn grebachlyd, ond edrychwch o'ch cwmpas a welwch chi flodau bach melyn tresgl y moch, hwyrach llysiâu'r cryman, ysgall a dant y llew. Mae yna gryn dipyn o amrywiaeth o ran glaswellt hefyd, yn gymysg â brwyn a mwsoglau. Mae'r rhain i gyd yn fydoedd bach ynddyn nhw'u hunain, o gofio bod ar amryw o rywogaethau angen presenoldeb un planhigyn penodol. Ewch ar eich pedwar a ffureta yn y coesynnau, ac fe allech chi gael hyd i chwilod neu bryfed na chaech chi mohonyn nhw mewn cae dan reolaeth ddwysach. Wedi dweud hynny, mae'n dipyn o laddfa cael hyd i fawr ddim ar laswelltir lled ddiffirwyth.

Ond yn sgil cael ei esgeuluso mae gan y tir bethau gwell o lawer i'w cynnig hefyd. Mae'n anwastad a heb ei ddraenio. Mae yna nentydd a mannau llaith, hyd yn oed ambell i gors go iawn nad ydi prin yn sychu hyd yn oed yng nghanol yr haf. Edrychwch o'ch cwmpas a welwch chi glytiau o lesni tywyllach sy'n dweud wrthym lle mae llystyfiant gwahanol. Crwydrwch yno a welwch chi ei fod hefyd yn uwch ac yn fwy iraidd. Fel arfer byddwn yn draenio'r corysdd am fod yn gas gan ddefaid gerdded mewn siglennydd madreddog... ac felly, dydi'r rhannau yma ddim yn cael eu pori agos mor ddwys. Mae yna lond gwlad o wahanol blanhigion i'w cael yn y dŵr ac o'i gwmpas a dyma sydd wrth wraidd llawer o'r amrywiaeth.

Felly, dyma i ni gynefin sy'n wirioneddol addawol. Ac yn well na hynny, mae tir comin yn sefydlog, am ddegawdau a chanrifoedd. Does yna ddim adeiladu na phlannu arno, a gan mwyaf fe'i gadawir ar ei ben ei hun ac mae gan ei drigolion le diogel i fyw eu bywydau i'r pen. Oherwydd hyn, cawn hyd i rywogaethau prin sy'n ffynnu yn y cynefinoedd hyn ond sy'n dioddef gan ddylanwad ac aflonyddu dyn mewn mannau eraill.

Dim ond ychydig o arolygon rwyf wedi'u gwneud yma ar Gomin Pen-y-bont, ond un peth cefais hyd iddo oedd buwch goch gota brin: y Fuwch Gota Hieroglyffig, un o tua hanner cant o rywogaethau yng ngwledydd Prydain, ond un na fydd y rhan fwyaf o bobl fyth yn ei chyfarfod. Mewn degawdau diweddar bu'n lleihau'n arw a phan fydd i'w gweld fel arfer ar rosydd corslyd mae hynny, lle mae'n bwyta rhywogaeth ei phrif brae, y chwilen grug. Allech chi alw rhai clytiau

bychain o'r comin yn rhostir, ond mae'r rhan fwyaf ohono'n eitha sych (wel, cyn syched ag y mae modd iddo fod yng Nghymru)... ac yn bwysicach fyth, wedi'i bori ormod i gefnogi na'r fuwch gota na'i phrae. A dacw hi, wrth gwrs, yn un o'r manau corslyd, allan o gyrraedd y defaid  
Mae yna rywogaethau eraill lawer i'w darganfod yma—ac ym mhobman arall, o ran hynny, o erddi i goedwigoedd i weunydd agored—ond i gael y cyfle i'w cyfarfod mae gofyn tipyn o ddyfalbarhad, gofal, a lwc ddall. Yn anad dim, mae gofyn i ni fod yn fodlon agor ein llygaid i'r byd fel y mae rhywogaethau eraill yn ei weld... a bod yn fodlon rhoi sylw i be gawn ni.

Roedd hi'n arfer â bod yn anodd dysgu astudiaeth natur yn fanwl, ond bellach mae yna gymaint o adnoddau a fforymau ar y rhyngwrdd a does eisiau dim ond mynd iddyn nhw ar eich pen a rhoi cychwyn arni. Mae yna hefyd entomolegwyr, botanegwyr lleol ac eraill, sy'n barod eu cyngor. Dyma daith ddarganfod sy'n werth chweil yn wir i chi, rydd i chi fwy o gip ar gyfoeth y byd rydym yn byw ynddo, a'r cymdogion rydym yn ei rannu â nhw.